

BLAENAU GWENT MYNEGAI ANABLEDD



Mae Deddf Plant 1989 yn mynnu bod pob Awdurdod Lleol yn casglu gwybodaeth ynghylch plant a phobl ifanc gydag anghenion ychwanegol neu anabledd. Mae'r Mynegai yn dwyn at ei gilydd y cofrestrï ym meddiant y Gwasanaethau Addysg a Gofal Cymdeithasol er mwyn cynllunio i'r dyfodol ar gyfer plant ag unrhyw anabledd, anghenion ychwanegol a/neu gyflwr iechyd all newid bywyd.

Beth yw'r Mynegai?

Cronfa ddata gyfrifiadurol sy'n gyfrinachol ac yn ddiogel ac sy'n cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol, ynghylch plant a phobl ifanc rhwng 0-19 gydag unrhyw anabledd, anghenion ychwanegol a/neu gyflwr iechyd all newid bywyd. Er mwyn helpu gyda'r gwaith ym Mlaenau Gwent, mae'r Adran Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymuno i atgyfnerthu'r holl wybodaeth ar blant, pobl ifanc a'u hanableddau.

Paham cael Mynegai?

Bydd y Mynegai yn ein galluogi ar y cyd i:

- Gasglu a chyflenwi gwybodaeth er mwyn cynllunio ar gyfer y blynyddoedd i ddod a'r dyfodol agos - o Ysgolion a Thrafnidiaeth i Gynlluniau Gwyliau a Gofal Seibiant. Mae hyn yn gwneud yn siŵr fod plant a'u teuluoedd yn cael eu cynnwys mewn gwasanaethau cynllunio.
- Ddarparu gwybodaeth ystadegol i'r Llywodraeth.
- Ofyn i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd beth yw eu dymuniad. Heb ymgynghori â rhieni, gofalwyr a phlant ynghylch pa gwestiynau y byddent yn hoffi'u gweld yn cael eu hateb, ni allai'r Mynegai weithio.
- Gylchynu gwybodaeth berthnasol, syniadau a newyddion drwy gyfrwng cylchlythron.
- Sicrhau bod plant a'u teuluoedd yn gwybod beth sy'n digwydd ym Mlaenau Gwent ac fel mae dod o hyd i'r gwasanaethau hyn a'u derbyn.

Beth nad yw'r Mynegai

Os yw rhiant/gofalwr yn penderfynu rhoi enw'u plentyn ar y Mynegai, nid yw'n eu gwneud yn gymwys am wasanaethau heblaw am wybodaeth, cyngor a chyfeirio at ffynonellau.

Sut mae'r Mynegai yn gweithio?

- Mae cofrestru'n wirfoddol ac mae'r holl wybodaeth bersonol ar y Mynegai yn gyfrinachol.
- Llenwir yr holiaduron gan rieni. Gall cymorth gael ei roddi gan weithiwr proffesiynol yn y maes sy'n adnabod y plentyn yn dda. Rhoddir copi i bob rhiant a theulu o'r wybodaeth a gynhwysir ar y Mynegai, i'w ddefnyddio fel y dymunant.
- Caiff y wybodaeth a gynhwysir ar y Mynegai ei diweddarau bob 2 flynedd drwy gysylltu â'r teulu. Felly fel bydd y plentyn/person ifanc yn aeddfedu, daw cyfle i wneud newidiadau hanfodol.
- Bydd teuluoedd yn derbyn cylchlythron rheolaidd yn cynnwys newyddion, syniadau a gwybodaeth.

Sut ydym ni'n ymuno â'r Mynegai?

Cysylltwch â Chydgysylltwr y Mynegai Anabledd all eich helpu gyda'r holl ymholiadau a'r cwestiynau allai fod gennych, o dderbyn holiadur ac ymuno â'r Mynegai i awgrymu erthyglau ar gyfer y cylchlythyr. Byddem wrth ein boddau i glywed oddi wrthyhych chi gyd!

Gwybodaeth bellach

Leandra Hunt (Cydgysylltwr y Mynegai Anabledd) Gwasanaethau Cymdeithasol, Llys Einion, Stryd yr Eglwys, Abertyleri, NP13 1DB,
Ffôn: 07776024208
E-bost: Leandra.Hunt@blaenau-gwent.gov.uk



Bydd SNAP Cymru yn cynorthwyo rhieni/gofalwyr i lanw'r holiadur.
Ffon: (01443) 862166
E-bost: alex.palmer@snapcymru.org